



gyrfaoedd
BLASUS
mewn bwyd a diod

**CANLLAW
ATHRAWON
2017**



Ariennir yn Rhannol gan
Lywodraeth Cymru
Part Funded by
Welsh Government

CY.TASTYCAREERSWALES.ORG.UK

Tanio eu Gyrfaoedd Blasus

A yw'ch myfyrwyr wedi ystyried gyrfa ym maes bwyd a diod?

Bydd y ganllaw hon yn darparu popeth y mae angen i chi wybod am y diwydiant bwyd a diod sy'n tyfu'n gyflym yn ogystal â'r cyfleoedd sydd ar gael i'ch myfyrwyr, beth bynnag bo'u cymwysterau.

Mae yna lawer o lwybrau cyffrous yn y diwydiant hwn sy'n datblygu'n gyson. Hefyd, mae datblygiad gyrfa a'r cyflog cyfartalog yn y diwydiant bwyd a diod yn uwch nag mewn llawer o sectorau eraill.

Bydd y fenter Gyrfaoedd Blasus yn helpu pobl ifanc i ddod o hyd i gyfleoedd gwaith rhagorol, sy'n talu'n dda a gyrfaoedd tymor hir. Yn y pecyn hwn, byddwch yn darganfod amrywiaeth eang o astudiaethau achos i roi blas hyd yn oed yn well i chi a'ch myfyrwyr ar y diwydiant.

Mae'r bobl ifanc yn y ganllaw hon eisoes wedi dechrau ar eu gyrfa yn y sector. Byddwch yn dysgu am eu gwaith o ddydd i ddydd, eu haddysg a'u dyheadau i'r dyfodol. Hefyd, mae gennym lysgenhadon bwyd a diod sydd ar gael i ymweld ag ysgolion a cholegau i siarad â myfyrwyr am eu profiadau yn y diwydiant.

Dysgwch fwy yn tastycareerswales.org.uk.

Rhestr wirio

Yn y ganllaw hon byddwch yn darganfod:

- Taflen wybodaeth ystadegau'r diwydiant
- Astudiaethau achos llysgenhadon
- Poster 'Sut mae gwneud bysedd pysgod?'
- Poster 'Sut mae gwneud salad cyw iâr?'
- Poster 'Popeth y mae angen i chi ei wybod am brentisiaethau'



Ariennir yn Rhannol gan
Lywodraeth Cymru
Part Funded by
Welsh Government

Gallwch lawrlwytho'r holl ddeunyddiau sydd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, o www.tastycareerswales.org.uk/resources



MAE ARLOESED YN ARWAIN Y DIWYDIANT

Mae'r diwydiant bwyd a diod yng Nghymru yn adnabyddus am ei gynnyrch o ansawdd uchel.

Mae digon o le i dyfu gyda mwy o alw am gynnyrch newydd a dewisiadau mwy iachus - gan ei wneud yn sector cyffrous ac arloesol i weithio ynddo.

Caiff ei ddisgrifio'n aml fel 'o'r fferm i'r fforc' neu 'o'r giât i'r plât', ac mae'r diwydiant bwyd a diod yn cynnwys tyfu a chynhyrchu bwyd (cynnyrch cynradd) hyd at weithgynhyrchu, prosesu ac adwerthu.

O ddylunio robotiaid cyfoes i ddatblygu cynnyrch newydd a phopeth rhwng hynny, mae digonedd o bethau cyffrous y gallai eich myfyrwyr ddewis eu gwneud yn y diwydiant bwyd a diod.

PA MOR FAWR YW'R GADWYN GYFLENWI BWYD YNG NGHYMURU?

Mae'r Gadwyn Gyflenwi Bwyd a Diod yng Nghymru (arlwyo, adwerthu a chyfanwerthu, amaeth a gweithgynhyrchu) yn cyflogi dros 223,100 o bobl ar draws 26,765 uned fusnes. Mae ganddo drosiant o £16.8 biliwn ac mae'n cynhyrchu £4.2 biliwn mewn Gwerth Ychwanegol Gros.

WYDDOCH CHI?

Mae gan y gadwyn gyflenwi bwyd a diod yng Nghymru drosiant o £16.8bn ac mae'n cyflogi dros 223,100 o bobl!

I DDYSGU MWY EWCH I: TASTYCAREERSWALES.ORG.UK

 [FACEBOOK.COM/TASTYCAREERS](https://www.facebook.com/TASTYCAREERS)  [@TASTYCAREERS](https://twitter.com/TASTYCAREERS)  [@TASTYCAREERS](https://www.instagram.com/TASTYCAREERS)



FELLY BETH SYDD MOR DDA AM Y DIWYDIANT BWYD A DIOD?

Oherwydd ni waeth beth yw diddordebau eich myfyrwyr, mae yna yrfaeodd ar draws meysydd amaethyddiaeth, cynhyrchu, datblygu cynnyrch, logisteg, gwerthiannau, marchnata, cyllid a mwy, ac mae pob un ohonynt yn gofyn am wahanol lefelau sgiliau.

A chyn belled ag y bydd y boblogaeth gynyddol angen bwyta ac yfed, bydd yna bob amser alw byd-eang a bydd angen i ni barhau i wella ein technoleg. Mae hynny'n golygu mwy o beirianwyr, gwyddonwyr a mathemategwyr hefyd.

PAM CAEL GYRFA YN Y DIWYDIANT BWYD A DIOD?

Mae'r Diwydiant Bwyd a Diod yng Nghymru yn cynnwys ystod eang o yrfaeodd ar draws meysydd amaethyddiaeth, cynhyrchu, logisteg, gwerthiannau, marchnata, cyllid a datblygu cynnyrch, pob un yn gofyn am wahanol lefelau sgiliau. Mae'n edrych yn debyg y bydd y diwydiant Bwyd a Diod yn tyfu'n gyflym wrth i alw byd-eang galw am ein cynnyrch gynyddu.

I gwrdd â heriau yn y dyfodol o ran newid yn yr hinsawdd a diogelwch bwyd, byddwn yn defnyddio technoleg fwy arloesol ac awtomataidd, a fydd yn sbarduno'r galw am beirianwyr, gwyddonwyr a mathemategwyr - bydd angen unigolion medrus iawn arnom i'n helpu i oresgyn yr heriau hyn.

Beth am ystyried y manteision:

- Cyfleoedd ar gyfer pob lefel o gymwysterau
- Gyrfaoedd gwerth chweil â dilyniant gyrfa cyflym
- Cyflog cyfartalog uchel o'i gymharu â diwydiannau eraill
- Gweithio mewn amgylchedd cyflym sy'n tyfu'n gyson i gadw i fyny â gofynion defnyddwyr

WYDDOCH CHI?

Y cyflog cyfartalog amser llawn yn y diwydiant gweithgynhyrchu bwyd a diod yw £19,600.



POPETH SYDD ANGEN I CHI'I WYBOD AM BRENTISIAETHAU...

FELLY BETH YN UNION YW PRENTISIAETH?

- ★ Cymhwyster **cydnabyddedig**
- ★ Mae **nifer** o gyflogwyr yn chwilio amdanynt
- ★ Gallwch **ennill cyflog** wrth **ddysgu**
- ★ Cyfuno profiad yn y **dosbarth** gyda phrofiad **ymarferol**

A YW PRENTISIAETH YN ADDAS I CHI?

- ✓ Mae Prentisiaethau'n cymryd rhwng blwyddyn a phedair blynedd i'w cwblhau
- ✓ Ai dyma'r **ffordd orau** i gychwyn ar **yrfa** o'ch dewis?
- ✓ Ydych chi'n hoffi'r syniad o **gyfuno gwaith** gydag **astudio**?
- ✓ Hoffech chi **ennill arian** wrth **hyfforddi**?

BETH SYDD I'W DDISGWYL:

- ⊕ Cymhwyster sy'n cael ei **werthfawrogi**'n fawrn
- ⊕ Profiad gwaith **ymarferol**
- ⊕ O leiaf **£3.50** yr awr

I BLE ALL PRENTISIAETH FYND Â CHI?


SUT MAE DECHRAU ARNI?

- 🔍 Ewch i tastycareers.org.uk/jobs i weld y cyfleoedd prentisiaethau sydd ar gael
- 📱 Dilynwch ni ar Twitter @TastyCareers
- 📺 Hoffwch ni ar Facebook: "Tasty Careers" am fanylion diweddaraf ynglŷn â llefydd gwag
- 📄 Ewch i wefan prentisiaethau Llywodraeth Cymru llyw.cymru/prentisiaethau

- **Datblygu eich gyrfa** gyda'ch cyflogwr presennol
- Ymgaisio am **swyddi newydd** gyda chyflogwyr eraill
- Parhau gyda'ch **addysg**
- Mae Prentisiaethau'n mynd o **Lefel 2** hyd at **lefel gradd**, felly gallwch gychwyn un ar unrhyw gyfnod yn ystod eich gyrfa

YSTADEGAU DIDDOROL YNGLYN Â PHRENTISIAETHAU YNG NGHYMRU

Cyfraddau llwyddiant dros y 5 mlynedd diwethaf ar gyfer



19%
Mae 19% o brentisiaid uwch yn symud ymlaen i addysg uwch


Yn 2014/15, gwelwyd

19,500
yn dechrau prentisiaeth,

mae hynny'n ogystal â'r

48,000
sydd eisoes dan hyfforddiant

Canran o brentisiaid yn ôl lefel y rhaglen, 2014/15



CY.TASTYCAREERSWALES.ORG.UK

Dilynwch ni ar: [f](https://www.facebook.com/tastycareers) [t](https://twitter.com/tastycareers) [i](https://www.instagram.com/tastycareers)

DIWYDIANT BWYD A DIOD CYMRU

CADWYN
GYFLENWI
BWYD A
DIOD...



£16.8BN
O DROSIANT

GWEITHGYNHYRCHU
BWYD A DIOD...



£4.8BN
O DROSIANT



PROTECTED
FOOD
NAMES

223,100

WEDI'U CYFLOGI
AR DRAWS:

ARLWYO



70,300

MANWERTHU A
CHYFANWERTHU



68,500

AMAETHYDDIAETH



62,100

CYNHYRCHU



22,100



22,100

WEDI'U CYFLOGI

ASTUDIAETH ACHOS

ENW: IEUAN EVANS

TEITL SWYDD: RHEOLWR BRAND

CYFLOGWR: THE WELSH WHISKEY COMPANY LTD

CYMWYSTERAU: BA (ANRH) MEWN ASTUDIAETHAU BUSNES A RHEOLAETH



BETH MAE RHEOLWR BRAND YN EI WNEUD?

Mae Rheolwr Brand yn gyfrifol am ymchwilio i gyfleoedd newydd yn y farchnad, cwrdd â chleientiaid a chyflenwyr a chodi ymwybyddiaeth o'r brand. Mae Rheolwr Brand hefyd yn gyfrifol am ymchwilio i gyfleoedd newydd yn y farchnad, cyfarfod â chleientiaid a chyflenwyr a chodi ymwybyddiaeth o'r brand.

PA GYNGOR FYDDECH CHI'N EI ROI I RYWUN SY'N YSTYRIED DILYN YR YRFA HON?

Mae'r yrfa sy'n symud yn sydyn iawn ac mae'n newid drwy'r amser. Cadwch eich gwybodaeth ynglŷn â newyddion a digwyddiadau'r diwydiant yn gyfredol gan ddefnyddio pobl fel Marketing Week ac Adweek. Darllenwch lyfrau am y rhai sydd wedi llwyddo a dysgwch o'u profiadau. Pobl fel Roger Enrico a fu'n gweithio gyda Pepsi neu Steve Jobs a roddodd Apple i ni. Peidiwch ag anghofio mwynhau popeth yr ydych yn ei wneud, ond gweithiwch ac astudiwch yn galed. Mae'r wefr o weld brand yn datblygu o fod yn syniad ar ddarn o bapur i fod yn fusnes gweithredol yn beth gwych i fod yn rhan ohono.

PE BYDDECH YN CAEL CYFLE I WNEUD POPETH ETO, BETH FYDDECH CHI'N EI WNEUD YR UN FATH NEU'N WAHANOL?

Byddem yn bendant yn edrych ar gyfleoedd internaieth yn ystod fy nghyfnod yn y Brifysgol. Pan symudais i Sbaen, roedd nifer o'r bobl wnes i gwrdd â nhw oedd yn byw ar y cyfandir wedi derbyn profiad internaieth, sydd ddim yn rhywbeth sy'n cael ei annog yn y DU. Byddem yn sicr yn annog pobl i wneud y gorau o'u gwyliau haf drwy weithio am rai wythnosau fel intern. Bydd hyn yn bendant yn ychwanegu at eich apêl i gyflogwyr posib.

PE BYDDECH YN GALLU RHOI CYNGOR I FERSIWN 16 MLWYDD OED OHONOC EICH HUN, BETH FYDDAI'R CYNGOR?

Croesawu pob cyfle i ddysgu rhywbeth newydd. Er nad yw rhywbeth yn ymddangos yn berthnasol ar hyn o bryd, mae'n bosib y bydd yn wybodaeth ddefnyddiol iawn maes o law. Roedd yn rhywbeth y cefais fy annog i'w groesawu ac mae'n gyngor da os byddwch yn ansicr am yr hyn yr hoffech ei wneud ar ôl addysg.

CROESAWU POB CYFLE I DDYSGU RHYWBETH NEWYDD. ER NAD YW RHYWBETH YN YMDDANGOS YN BERTHNASOL AR HYN O BRYD, MAE'N BOSIB Y BYDD YN WYBODAETH DDEFNYDDIOL IAWN MAES O LAW.



WWW.TASTYCAREERSWALES.ORG.UK

ASTUDIAETH ACHOS

ENW: CRAIG WALKLEY

TEITL SWYDD: RHEOLWR GLENDID A CHYDLYNYDD

AMGYLCHEDDOL Y SAFLE

CYFLOGWR: ALLIED BAKERIES

CYMWYSTERAU: GRADD BA (ANRH) MEWN ASTUDIAETHAU DRAMA, THEATR A'R CYFRYNGAU

SUT WNAETHOCH CHI GYRRAEDD Y SWYDD HON?

Dechreuais weithio i gwmni Allied Bakeries yn 2008 fel Gweithiwr Glendid yn gweithio ar ddydd Sadwrn yn unig, ac fe wnes i barhau i weithio yn ystod fy nghyfnod ym Mhrifysgol Morgannwg lle bûm yn astudio cwrs BA (Anrh) mewn Drama, Theatr a'r Cyfryngau. Ar ôl graddio, dechreuais weithio i Allied Bakeries yn ystod yr wythnos. Yna dechreuais ddatblygu dealltwriaeth ynglŷn â phobl a phrosesau a dechreuais fwynhau derbyn incwm rheolaidd; rhywbeth nad oeddwn wedi arfer ei gael fel actor. Roeddwn wedi datblygu perthynas dda gyda'r Rheolwr Glendid ac yn 2013 daeth ataf i ddweud bod cyfle ar gael fel Gweinyddwr Glendid. Gan fy mod yn gallu defnyddio cyfrifiadur, cynigiais fy ngwasanaeth nes y byddai person addas i gymryd fy lle. Yn ystod fy nghyfnod fel Gweinyddwr Glendid, dechreuais fwynhau'r swydd, y diwydiant a'r tîm o'm cwmpas, felly penderfynais ymgeisio am y swydd ac roeddwn yn llwyddiannus. O'r fan honno, symudais ymlaen yn y cwmni hyd at fy swydd bresennol fel Rheolwr Glendid.

BETH YW'R PETH GORAU AM EICH SWYDD?

Y peth gorau am fy swydd yw bod pob dydd yn wahanol. Mae rhywbeth o hyd i'ch cadw ar flaenau eich traed. Mae bod yn rhan o Dim Glendid sy'n gweithio'n agos gyda'r tîm technegol ac adrannau cyfagos yn golygu y gallwch bob amser ddisgwyl bod yn rhan o'r rhan fwyaf o bethau sy'n mynd ymlaen, o Ddatblygu Cynnyrch Newydd i gomisiynu cyfarpar newydd. Mae Tim glendid yn rhan bwysig iawn o'r diwydiant gweithgynhyrchu bwyd a diod.

YM MHLE YDYCH CHI'N EICH GWELD EICH HUN YMHEN PUM MLYNEDD?

Gan na wnes i astudio cwrs yn ymwneud â bwyd yn y brifysgol, rwy'n gobeithio datblygu fy ngwybodaeth am fwyd a diod trwy fynychu cyrsiau amrywiol gyda'r gobaith o ennill cymwystrau amrywiol. Hoffem fod yn rhan o dîm technegol y safle, ac yn y pen draw i ddatblygu i fod yn Rheolwr Gwasanaethau Technegol y safle.

PE BYDDECH YN GALLU RHOI CYNGOR I FERSIWN 16 MLWYDD OED OHONOC EICH HUN, BETH FYDDAI'R CYNGOR?

Byddwch yn barod am newid. Oherwydd fy niffyg gwybodaeth a dealltwriaeth o'r diwydiant bwyd, nid dyma oedd fy newis gyrfa, ond o ganlyniad i newid mewn amgylchiadau personol a'r cyfle a roddwyd i mi gan gwmni Allied Bakeries, newidiodd fy nhrywydd gyrfa.



CY.TASTYCAREERSWALES.ORG.UK

CY.TASTYCAREERSWALES.ORG.UK

ASTUDIAETH ACHOS

ENW: LAURA DAVIES

TEITL SWYDD: RHEOLWR DISTYLLFA

CYFLOGWR: THE WELSH WHISKEY COMPANY LTD

CYMWYSTERAU: BSC MEWN GWYDDOR FFORENSIG A THROSEDDEG,

CMI LEFEL 7 (RHEOLAETH STRATEGOL)

BETH MAE RHEOLWR DISTYLLFA YN EI WNEUD?

Rydw i'n sicrhau bod ein gweithgareddau distyllu'n rhedeg yn ddiraffferth, yn effeithlon ac yn ddiogel, gan gynhyrchu gwirodydd wedi'i ddistyllu o'r ansawdd gorau posib. Rwy'n rheoli gweithrediad ein defnydd o frag, casgenni potsio a'r distyllbeiriau, yn monitro eplesiad ac yn asesu ansawdd gwirodydd. Mae'r holl asesiadau ansawdd a wneir ar y gwirodydd yn seiliedig ar arogl - golyga hynny fy mod yn asesu sut mae'r gwirodydd yn aroglu er mwyn canfod unrhyw namau, yr ansawdd yr ydym yn chwilio amdano ayyb - mae hon yn rôl eithaf unigryw, gan fod angen i chi asesu gan ddefnyddio eich trwyn er mwyn gallu ei gyflawni; fe amcangyfrifir mai dim ond 20% o bobl sy'n gallu gwneud hyn. Rwyf hefyd yn goruchwyllo rheolaeth ein Canolfan Ymwelwyr, sy'n denu dros 40,000 o ymwelwyr bob blwyddyn. Rhan fawr arall o'm rôl yw rheoli staff y ddistyllfa; ar hyn o bryd rwy'n gyfrifol am 17 aelod o staff yn y ddistyllfa, gan gynnwys recriwtio, hyfforddiant a goruchwyliaeth.

BETH YW'R PETH GORAU AM EICH SWYDD?

Y peth gorau am fy swydd yw fy mod yn cael cyfle i wneud rhywbeth yr wyf yn teimlo'n angerddol amdano - anaml y mae'n teimlo fel gwaith gan fy mod yn ei fwynhau. Rwy'n cael teithio'r byd, a chwrdd â chymaint o bobl ddiddorol ac rwy'n teimlo gwir falchder o weld ein cynnyrch ar y silff gan wybod pa mor galed y mae'r tîm wedi gweithio i'w cael nhw yno. Rwyf hefyd wrth fy modd bod pob diwrnod yn cynnig her newydd, boed yn her dechnegol, yn her adnoddau dynol neu unrhyw beth arall.

PE BYDDECH YN GALLU RHOI CYNGOR I FERSIWN 16 MLWYDD OED OHONOC EICH HUN, BETH FYDDAI'R CYNGOR?

Meddylwch am yr hyn yr hoffech ei wneud, a dewiswch rhywbeth yr ydych wir yn ei fwynhau os yn bosib. Os fyddwch chi'n teimlo'n angerddol dros eich gyrfa, ni fydd byth yn teimlo fel gwaith, waeth pa mor anodd y bydd pethau.

gyrfaedd
BLASUS
mewn bwyd a diod
CYMRU

OS FYDDWCH CHI'N
TEIMLO'N ANGERDDOL
DROS EICH GYRFA, NI
FYDD BYTH YN TEIMLO
FEL GWAITH, WAETH
PA MOR ANODD Y BYDD
PETHAU.



CY.TASTYCAREERSWALES.ORG.UK

ASTUDIAETH ACHOS

ENW: LAURA DAVIES

TEITL SWYDD: AELOD O'R UWCH DÎM CYNHYRCHU BARA

CYFLOGWR: ALLIED BAKERIES

CYMWYSTERAU: GCSEs

BETH YW GWAITH AELOD O'R UWCH DÎM (ATM)?

Mae gennym ddau safle bara. Mae pob safle'n cynnwys 3 gweithfan cynhyrchu, sef cymysgydd, caead ymlaen a gadael y ffwrn. Rwy'n rheoli'r tîm o 4 (mae'r 4ydd unigolyn yn cyflenwi yn ystod egwylliau) o weithfan y cymysgydd. Fy nghyfrifoldeb yw rheoli'r safle i sicrhau bod y tîm yn cael yr egwylliau gofynnol a bod ansawdd y cynnyrch yn cael ei gynnal yn unol â manylebau y cytunwyd arnynt, bod mesurau rheoli proses y safle ar y fanyleb y cytunwyd arni a bod y rhediadau cynnyrch yn cael eu cwblhau yn unol â'r amserlen arfaethedig. Byddaf hefyd yn cysylltu â'r timau Cynllunio, Technegol, Peirianneg neu Reolwyr Sifft fel sy'n ofynnol. Mae gennym ddau safle bara. Rwy'n rhedeg "Safle B", ac mae Uwch Aelod Tîm arall yn rhedeg "Safle A". Os bydd y Rheolwr Llinell Cyntaf yn absennol, byddaf yn camu ymlaen ac yn darparu gwasanaeth cyflenwi. Rwyf hefyd yn cyflenwi yn yr ardal becynnu pan fo angen.

DISGRIFIWCH EICH SWYDD MEWN 20-25 O EIRIAU.

Sicrhau bod cynhwysion yn cael eu galw drosodd i'r cymysgydd a bod y cymysgedd o'r ansawdd y cytunwyd arno, yn unol â'r fanyleb, ac yn y profwr o fewn 7 munud.

RHOWCH DDISGRIFIAD O DDIWRNOD YM MYWYD UWCH AELOD TÎM SAFLE BARA.

Diddorol. Rydym yn gweithio sifftiau 12 awr, 4 diwrnod o 7 diwrnod yr wythnos, yn gweithio diwrnodau a nosweithiau ar rota tair wythnos. Mae'n waith â llaw; byddwch bob amser yn weithgar ac ar adegau gallwch symud tua 8-10 tunnell o duniau ar y raciau / oddi arnynt bob dydd. Hefyd byddwch yn gweithio lle gall tymheredd peiriannau ac offer fod dros 100°C a gall y tymereddau dyddiol yn yr haf fod yn gynnes iawn, felly mae Iechyd a Diogelwch a gofalu am eich hun ac aelodau eraill eich tîm yn hanfodol.

PA GYNGOR BYDDECH YN EI ROI I RYWUN SY'N YSTYRIED DILYN YR YRFA HON?

Ewch amdani! Mae'n ddiddorol, yn heriol ac mae'r cyflog yn dda, fodd bynnag, cofiwch ein bod yn gweithio mewn amgylcheddau poeth iawn lle mai Iechyd a Diogelwch a gweithio fel tîm yw'r pethau pwysicaf.



CY.TASTYCAREERSWALES.ORG.UK

CY.TASTYCAREERSWALES.ORG.UK

ASTUDIAETH ACHOS

ENW: GWEN JONES

TEITL SWYDD: DADANSODDWR PERFFORMIAD GWEITHREDOL

CYFLOGWR: VOLAC INTERNATIONAL

CYMWYSTERAU: AAT L3



BETH MAE DADANSODDWR PERFFORMIAD GWEITHREDOL YN EI WNEUD?

Darparu lefel uchel o gefnogaeth i'r Rheolwr Perfformiad Gweithredol ym mhob maes. Cefnogi gwelliant parhaus trwy drendio a monitro; adrodd ar feysydd allweddol yn ymwneud ag ynni, perfformiad a chyllid i'r Tîm Rheoli.

SUT WNAETHOCH CHI GYRRAEDD Y SWYDD HON?

Pan oeddwn i'n 20 mlwydd oed, roeddwn i'n ansicr ynglŷn â'r llwybr gyrfa yr oeddwn eisiau ei ddilyn, er fy mod wedi penderfynu nad oedd addysg Prifysgol yn addas i mi. Ar hap wrth ymchwilio ar y we, gwelais fod Volac yn chwilio am Gynorthwydd Gweinyddol. Ar ôl 18 mis yn y swydd hon, cefais ddyrchafiad i rôl barhaol fel Gweinyddwr Peirianeg, ac o fewn blwyddyn gofynnwyd i mi ail-ymuno â'r Tîm Gweinyddol fel Prentis yn y Gweithle gyda chynllun hyfforddiant dros dair blynedd er mwyn i mi ennill fy nghymwysterau Technegydd Cyfrifeg yng Ngholeg Sir Gâr; gyda llwybr gyrfa i weithio mewn cyfrifeg weithredol a rheolaeth. Ym mis Mehefin 2016, ar ôl pasio fy ail flwyddyn ar y cwrs AAT lefel 3, cefais ddyrchafiad i rôl weinyddol uwch fel Dadansoddwr Perfformiad Gweithredol.

BETH YW'R PETH GORAU AM EICH SWYDD?

Y peth gorau am fy swydd yw bod pob dydd yn wahanol. Mae pob dydd yn amrywio felly mae'n gwneud y rôl yn fwy diddorol a heriol.

YM MHLE YDYCH CHI'N EICH GWELD EICH HUN YMHEN PUM MLYNEDD?

Ymhen pum mlynedd, hoffwn weld fy hun mewn rôl Uwch ar lefel rheolwr llinell; yn adrodd yn uniongyrchol i Reolwr Cyffredinol y Ffatri.

PE BYDDECH YN GALLU RHOI CYNGOR I FERSIWN 16 MLWYDD OED OHONOC EICH HUN, BETH FYDDAI'R CYNGOR?

Mae amrywiaeth o swyddi ar gael sy'n gallu cynnig cyfleoedd gyrfa trwy brentisiaethau yn y gweithle - felly os na chawsoch y canlyniadau yr oeddech wedi gobeithio eu cael, nid yw'n ddiwedd y byd!

MAE AMRYWIAETH
O SWYDDI AR
GAEL SY'N GALLU
CYNNIG CYFLEOEDD
GYRFA TRWY
BRENTISIAETHAU YN Y
GWEITHLE.



CY.TASTYCAREERSWALES.ORG.UK

SUT MAE GWNEUD BYSEDD PYSGOD?

gyrfaoedd
BLASUS
mewn bwyd a diod

CYMRU

...Nid yw'n broses mor syml ag y byddech yn ei feddwl...

Mae **CYCHOD PYSGOTA** a'r **CRIW** yn hwylio'r môr ac yn dal nifer o wahanol fathau o bysgod a physgod cregyn yn unol â chwotâu a chanllawiau llym. Unwaith byddant yn dod â'r pysgod i'r lan, bydd **PRYNWYR** o gwmnïau mawr, archfarchnadoedd, **GWERTHWYR PYSGOD** a bwytai yn asesu ansawdd a ffresni'r pysgod, corgimychiaid, cregyn bylchog, cimychiaid a chrancod. Mae **TECHNEGWYR OERI** gyda sicrhau bod y bwyd môr yn cael ei ddsbarthu'n sydyn ac yn cael ei gludo i'r cam nesaf yn y gadwyn brosesu er mwyn sicrhau'r ffresni gorau posibl. Yn yr archfarchnad a'r **GWERTHWYR PYSGOD** annibynnol, mae'r **GWERTHWYR PROSESU** yn glanhau ac yn paratoi popeth yn barod i'w werthu fel cynnyrch amrwd, ac mae **TIMAU DATBLYGU CYNNYRCH NEWYDD** yn datblygu prydau newydd a chyffrous yn barod i'w coginio er mwyn i'r adran **GWERTHU A MARCHNATA** ddatblygu mwy o becynnau creadigol ac ymgyrchoedd marchnata ar gyfer y cwsmer. Ar yr un pryd, mae penfras newydd ei ffleddu wedi cael ei archwilio o ran ansawdd gan **REOLWR SICRHAU** yn fysedd pysgod, a'u cludo i'ch archfarchnad leol.

A CHITHAU'N MEDDWL MAI DIM OND TAITH I'R SIOP SGLODION OEDD EI ANGEN!

Er mwyn darganfod mwy am y math o gyfleoedd gyrfa, sydd ar gael yn y Diwydiant Gweithgynhyrchu Bwyd a Diod, ewch i:

TASTYCAREERSWALES.ORG.UK

Dilynwch ni ar:



CY.TASTYCAREERSWALES.ORG.UK

SUT MAE GWNEUD SALAD CYW IÂR?

gyrfaedd
BLASUS
mewn bwyd a diod
CYMRU



...Nid yw'n broses mor syml ag y byddech yn ei feddwl...

Mae **FFERMWYR** yn buddsoddi amser, arian ac arbenigedd mewn cynhyrchu cywion ieir i ni eu bwyta. Mae **SWYDDOGION LLES ANFEILIAID** yn gwirio'n ofalus bod y dofednod yn cael eu ffermio a bod y cig yn cael ei gynhyrchu i'r safonau uchaf posibl cyn i'r cywion ieir gael eu paratoi a'u coginio mewn cyfleusterau cynhyrchu, gan ddefnyddio offer wedi'i ddylunio a'i gynnal a'i gadw gan **BEIRIANWYR Y DIWYDIANT BWYD** gan ddefnyddio prosesau a ddatblygwyd gan **DECHNOLEGWYR PROSESU BWYD**. Mae cynydu salad ffres yn cael eu cynhyrchu gan **DYFWYR** i safonau sydd wedi'u llunio, eu goruchwyllo a'u gwirio gan **AGRONOMEGWYR** a'u cynaeafu gan ddefnyddio offer wedi'i ddylunio gan **BEIRIANWYR AMAETHYDOL**. Mae **PRYNWYR** yn dewis y cynydu gora sy'n cael eu cynaeafu pan fo'r ansawdd ar ei orau, ac yna maent yn cael eu hoeri er mwyn eu cadw'n ffres. Mae'r salad ffres a'r cig cyw iâr yn cael eu hanfon at y gwneuthurwr salad, lle byddant yn cael eu gwirio gan y **TÎM ANSAWDD** er mwyn sicrhau eu bod o'r ansawdd iawn. Mae dresin blasus yn cael eu datblygu gan **WYDDONWYR A THECHNOLEGWYR BWYD** sy'n gweithio gyda'r **TÎM DATBLYGU CYNNYRCH**, sydd yn creu ryseitiau newydd gyda **MAETHEGWYR**. Mae'r Datblygwyr Cynnyrch hefyd yn gweithio gydag **YMCHWILWYR PEGYNNU BWYD** i gyflwyno'r salad cyw iâr mewn modd sy'n apelio at gwsmeriaid posibl. Mae'r **RHEOLWR CYNHYRCHU** yn gweithio gydag **ARWEINWYR TÎM** i sicrhau bod y **GWETHWYR PROSESU** yn paratoi'r salad cyw iâr yn y modd cywir. Mae'r gwaith paratoi yn cael ei fonitro gan **DIMAU ANSAWDD** sy'n gweithio i'r **RHEOLWR SICRHAU ANSAWDD** i sicrhau bod gweithdrefnau hylendid a diogelwch bywd da'n cael eu cynnal. Mae'r holl broses yn cael ei reoli gan y **RHEOLWR TECHNEGOL**. Yna bydd yr adran **GWERTHU A MARCHNATA** yn defnyddio'r **ADRAN TECHNOLEG GWYBODAETH** i nodi pryd y bydd angen i'r salad cyw iâr gael ei gludo i'r siop gan y **TÎM DOSBARTHU** gan ddefnyddio **ARBENIGWYR LOGISTEG AR GYFER CYNNYRCH WEDI'I OERI**. Bydd hyn fel arfer yn digwydd ar y diwrnod y caffodd ei wneud er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn ffres, yn iach ac yn flasus pan fydd yn cyrraedd eich basged siopa!

A CHITHAU'N MEDDWL MAI DIM OND YCHYDIG O GYW IÂR A LETYS OEDD ANGEN!

Er mwyn darganfod mwy am y math o gyfleoedd gyrfa sydd ar gael yn y Diwydiant Gweithgynhyrchu Bwyd a Diod, ewch i:

TASTYCAREERSWALES.ORG.UK

Dilynwch ni ar:



